



Cynlluniau Rheoli Basn Afon: Crynodeb o anecs trosolwg cynllunio

Mae'r atodiad trosolwg o gynllunio rheoli basn afon yn cefnogi'r cynlluniau rheoli basn afon drafft. Mae'n rhoi'r manylion sy'n gefndir i'r penderfyniadau sydd wedi llywio'r dogfennau ymgynghori.

Cefndir

Mae Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr Ewrop yn darparu'r prif fframwaith o ran rheoli'r amgylchedd dŵr trwy Ewrop. Yn ganolog iddo mae dull ecosystem sy'n gofyn am gymryd mesurau i annog defnyddio dŵr yn gynaliadwy ac amddiffyn a gwella dyfroedd wyneb mewndirol, dyfroedd daear a dyfroedd arfordirol, gyda'r nod o gyrraedd statws da. Mae'n cydnabod bod angen i grwpiau a chanddynt fuddiant gydweithio i gynllunio a gweithredu gwelliannau, gan reoli'r amgylchedd dŵr mewn ffordd gyfannol ac integredig.

O dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, mae'n rhaid datblygu cynllun rheoli ar gyfer pob ardal basn afon. Cyhoeddwyd y rhain yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2009 gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn), fel yr awdurdod cymwys i weithredu'r gyfarwydddeb yng Nghymru. Roedd y cynlluniau rheoli basn afon (y cynlluniau) yn amlinellu'r gwaith y byddai angen ei wneud er mwyn sicrhau y byddai mwy o ddyfroedd yn cyrraedd statws da erbyn 2015 a pha waith ymchwil y dylid ei gynnal er mwyn profi a allai'r holl ddyfroedd gyrraedd hynny erbyn 2027.

Rhaid adolygu a diweddarau'r cynlluniau, yr amcanion a'r mesurau sydd ynddyn nhw bob chwe blynedd; felly, mae y cynllun i Basn Afon Gorllewin Cymru, Dyfrdwy a Hafren wedi cael eu cyhoeddi.

Gan weithio gydag eraill, dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y broses o ddiweddarau'r cynlluniau cyntaf yn 2012. Mae'r brif ddogfen ar gyfer pob ardal basn afon yn crynhoi cyflwr presennol amgylchedd y dŵr a'r newidiadau i'r amcanion a'r mesurau .

Gwybodaeth ategol

Mae'r data canlynol ar gyfer pob corff dŵr yng Nghymru ar gael ar wefan Gwarchod Dyfroedd Cymru:

- Canlyniadau dosbarthu
- Rhesymau dros beidio â chyrraedd statws da
- Amcanion cyrff dŵr
- Rhesymau dros amcanion statws arall
- Rhwydweithiau monitro
- Mesurau gofynnol i wella cyrff dŵr er mwyn cyrraedd statws

Yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y ddogfen

Mae **rheoli amgylchedd y dŵr** (adran 2) yn disgrifio pam y mae dŵr yn adnodd mor bwysig, ac mae'n crynhoi'r polisiau, rhai Ewropeaidd a domestig, sy'n llywio sut y mae amgylchedd y dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli.

Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** (adran 3) yn disgrifio nodau ac amcanion y gyfarwyddeb, gan gynnwys defnyddio eithriadau. Disgrifir y broses cynllunio rheoli basn afon yng Nghymru, gan gynnwys sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio gydag eraill.

Mae **diffinio a disgrifio'r amgylchedd dŵr** (adran 4) yn disgrifio sut y rhennir ac y nodweddir yr amgylchedd dŵr at ddibenion gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n nodi sut y caiff yr amgylchedd ei fonitro a sut y defnyddir canlyniadau'r gwaith monitro hwnnw i asesu a llunio adroddiad ar statws yr amgylchedd dŵr. Mae rhan olaf yr adran yn disgrifio'r prif heriau sy'n effeithio ar reoli'r amgylchedd dŵr yng Nghymru a sut y mae risgiau'r dyfodol wedi'u hasesu, gan nodi'r hyn sy'n achosi problemau ar hyn o bryd.

Mae **nodi mesurau ac amcanion** (adran 5) yn disgrifio rôl y gwerthusiad economaidd ac yn nodi manylion y broses gyffredinol a ddefnyddir ar gyfer penderfynu ar amcanion amgylcheddol, gan gynnwys amcanion statws a datblygu mesurau ar gyfer cyrff dŵr.

Mae'r **crynodeb o waith ymgysylltu** (adran 6) yn ystyried y gwaith ymgysylltu rydym wedi'i wneud, gan gynnwys mynediad y cyhoedd at wybodaeth, ymgynghoriadau a chipolwg ar y dyfodol.

Mae **Gofynion Atodiad VII** (adran 7) yn nodi'r gofynion dan Atodiad VII y Gyfarwyddeb a lle gellir dod o hyd i'r wybodaeth.

Mae **Mecanweithiau ar gyfer diogelu'r amgylchedd dŵr** (adran 8) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y mecanweithiau sy'n tanategu'r mesurau i wella'r amgylchedd dŵr

Geirfa (adran 9) rhestr gynhwysfawr o'r holl acronymau a ddefnyddir drwy'r ddogfen